

## Eitem: 5

### Teitl: Adroddiad y Prif Weithredwr

#### Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhai o weithgareddau'r Prif Weithredwr ers cyfarfod cyhoeddus llawn ddiwethaf y Bwrdd ar 24 Gorffennaf 2024. Mae gwybodaeth fanylach am ein gweithgareddau a'n datblygiadau allweddol ers cyfarfod diwethaf y bwrdd wedi'i chynnwys ym mhapurau eraill y Bwrdd.

#### **Datblygu perthnasoedd a gweithio gyda phartneriaid**

Rwyf wedi cyfarfod â llawer o bartneriaid allweddol i siarad am ein rôl, datblygu ein cynlluniau a chyflawni ein gweithgareddau, ein ffyrdd o weithio, materion allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a sut y gallwn gydweithio i gryfhau llais pobl yng ngwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyfarfodydd gyda thîm partneriaeth Llais i siarad am weithgareddau a pherfformiad, gweithgareddau datblygu, dyraniad cyllideb 2024-2025 a threfniadau cynllunio cyllideb ar gyfer 2025-2026 Llais. Roedd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth fanwl am effaith bosibl yr heriau ariannol presennol ar ddatblygu a darparu ein gwasanaethau.
- Cyfarfodydd cynllunio neu rannu gwybodaeth reolaidd gyda chyrff cynrychioliadol iechyd a gofal cymdeithasol neu gyrff rheoleiddio. Roedd hyn yn cynnwys:
  - Coleg Brenhinol y Bydwagedd, i siarad am drefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn rheolaidd a chyfleoedd i gydweithio ar feysydd o ddiddordeb cyffredin, gan gynnwys heriau sy'n effeithio ar wasanaethau mamolaeth megis yr heriau capasiti sy'n effeithio ar drefniadau geni gartref mewn rhai rhannau o Gymru
  - Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, i siarad am ddatblygiad ein perthynas ag awdurdodau lleol, yr hyn yr ydym yn ei glywed am wasanaethau gofal cymdeithasol a chydweithio i ehangu ein gweithgareddau yn y sector
  - Cymdeithas Feddygol Prydain, i drafod pryderon ynghylch cyflwyno Cymdeithion Meddygol yng Nghymru
  - Conffederasiwn y GIG, i siarad am yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y cyfnod cyn y gaeaf, gan gynnwys pwysigrwydd canolbwyntio ar angen heb ei ddiwallu mewn gofal cymdeithasol

- cyfarfod rhagarweiniol gyda Phrif Weithredwr newydd Gofal Cymdeithasol Cymru, a chyfarfod ar y cyd pellach gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Buom yn siarad am ystod o faterion gan gynnwys trefniadau yn Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion a'u cynnwys, cydweithio ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ddatblygu trefniadau digidol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys casglu data, ac ymgysylltu â phobl ar adolygiad o'r [Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol](#)

- Fferylliaeth Gymunedol Cymru, i siarad am ddatblygiadau a heriau mewn fferylliaeth gymunedol. Roedd hyn yn cynnwys effaith hinsawdd ariannol heriol ar gapasiti staffio, ymdrin â phrinder meddyginiaethau, y cydbwysedd rhwng gweithgarwch ymgynghori a dosbarthu, cyflwyno trefniadau e-ragnodi a gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod sut mae'n gweithio, datblygu ap y GIG a threfniadau fferyllfa gwerthu o bell.
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, i siarad am y cynnydd o ran cyflawni'r argymhellion o'i adroddiad ymchwiliad ar ['Benderfyniadau heriol ym maes gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru a Lloegr'](#).

Buom hefyd yn canolbwyntio ar ystod o faterion eraill gan gynnwys y cyfleoedd a'r risgiau ar gyfer cynhwysiant yn ymwneud â datblygiadau digidol, defnyddio a rhannu data personol ac ymgynghori ar gynllun strategol nesaf y Comisiwn.

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i siarad am ein trefniadau cydweithredu, gan gynnwys rhannu gwybodaeth.
- Ein cyfarfod rheolaidd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, i adolygu ein trefniadau gweithio ar y cyd, rhannu gwybodaeth am ein gweithgareddau priodol a siarad am ein cynlluniau ar gyfer uwchgynhadledd cwynion.
- Trafodaethau pellach gyda Chomisiwn Bevan ynghylch ein rhaglen waith a gweithgareddau ar y cyd. Cytunwyd ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys:
  - ein rhan mewn trafodaeth bwrdd crwn 'Iechyd ar y Stryd Fawr' ym mis Hydref 2024
  - amseriadau ac ymgysylltiad ar ein gwaith ar y cyd ar 'Rheolau Gwirion'
  - yr ymagwedd at ein prosiect 'Cerdded yn Eich Esgidiau' a
  - datblygu ein cyfres 'Mewn Sgwrs gyda'.
- Trafodaethau pellach gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gytuno ar feysydd allweddol o ddiddordeb ar y cyd a chyfleoedd i wneud pethau gyda'n gilydd yn y flwyddyn i ddod.

- Trafodaethau ag ystod o gyrff trydydd sector a chyrrff eraill i rannu gwybodaeth a nodi cyfleoedd i gydweithio:
  - Prifysgol Abertawe, i siarad am safbwyntiau'r cyhoedd yng Nghymru mewn gwahanol feysydd gofal iechyd, gan gynnwys cyrchu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg
  - Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ac Anabledd Dysgu Cymru, i siarad am y gwaith rydym wedi bod yn ei wneud gyda'n gilydd yn lleol i ganolbwyntio ar brofiad pobl ag anableddau dysgu sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac i edrych ar gyfleoedd i gydweithio'n genedlaethol.
  - Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, i siarad am ddatblygiad ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion, profiadau plant a phobl ifanc a [Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#).
- Cyfarfodydd rhagarweiniol ag Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i dîm, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol dros dro Cymru, a Thîm Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Y tu hwnt i Gymru, cynhaliais gyfarfod dal i fyny rheolaidd gyda Phrif Weithredwr Healthwatch England. Rhannwyd gwybodaeth gennym am amrywiaeth o faterion gan gynnwys rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol a gofynion mynediad meddygon teulu yng Nghymru, a'r dulliau a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr ar gyfer datblygu a defnyddio meddygon cyswllt, a'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu o ran cael gweld deintydd.

### Datblygu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Rwyf wedi cyfarfod ag amrywiaeth o lunwyr polisi iechyd a gofal cymdeithasol, cyrrff datblygu a grwpiau i rannu'r hyn yr ydym yn ei glywed am brofiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal, ac i ddylanwadu ar yr hyn sydd angen digwydd i wneud pethau'n well.

Rwyf wedi:

- Gweithio gyda chydweithwyr o'r Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth<sup>1</sup> ac eraill i wneud gwaith dilynol ar gytundeb y Grŵp Cynghori Strategol i ganolbwyntio ar drefniadau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion â'r Swyddfa Genedlaethol.
- Cyfarfod â Phrif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru i siarad am yr hyn yr ydym yn ei glywed am wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Buom yn siarad am amrywiaeth o faterion gan gynnwys nodi a rhoi cymorth i ofalwyr, arosiadau hir am asesiadau, rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, cael cymorth seibiant, parhad gofal cartref ac oedi wrth fwrw ymlaen â chwynion cam 2 oherwydd diffyg ymchwilwyr annibynnol.

<sup>1</sup> [Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth | LLYW.CYMRU](#)

- Cyfarfod â Gweithrediaeth y GIG i siarad am y trefniadau ar gyfer cael cymorth iechyd meddwl brys gan wasanaeth ['Gwasgwch 2' GIG 111 Cymru](#), adolygiad o'n polisi a gweithdrefn diogelu Llais a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gwasanaeth.
- Ymweld â chanolfan Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn Nafen. Buom yn siarad am rôl, cylch gorchwyl a gweithgareddau Llais a chlywsom yn uniongyrchol gan staff rheng flaen am y gwaith y maent yn ei wneud.
- Wedi cyfarfod â phobl yr effeithir arnynt gan ofal mamolaeth gwael a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i glywed mwy am yr effaith ar eu bywydau a'r hyn y maent ei eisiau o adolygiad annibynnol.
- Cyfarfod â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i siarad am ei drefniadau ar gyfer ymgysylltu â phobl a chymunedau ynghylch cynigion i [wneud newidiadau dros dro i Unedau Mân Anafiadau yn Aberhonddu a Llandrindod a gwasanaethau cleifion mewnol ysbytai cymunedol ledled Powys](#) a'i heriau ariannol sylweddol.
- Cymryd rhan yn yr asesiad o'r ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer carfan 8 [rhaglen Enghreifftiol Comisiwn Bevan](#). Mae'r rhaglen hon yn herio ymgeiswyr i ddatblygu "atebion darbodus ac arloesol i oresgyn problemau sy'n wynebu darpariaeth gynaliadwy o wasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru".

Cefnogir prosiectau llwyddiannus gan raglen 12 mis o hyfforddiant a mentoriaeth i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal o'r tu mewn, i gael effaith gadarnhaol ar ofal, profiadau bywyd, canlyniadau iechyd ac effeithlonrwydd gwasanaeth.

- Ymweld â [Solva Care](#), i glywed gan ei gydlynnydd ac ymddiriedolwr am ei waith. Elusen leol yw Gofal Solfach. Mae'n darparu system gymorth werthfawr i bobl sy'n byw ym mhlwyf Solfach. Mae ei gwirfoddolwyr yn cynnig cymorth i'r rhai sydd ei angen mewn llawer o wahanol ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau galw heibio, tripiâu allan, teithiau cerdded, mân atgyweiriadau a chynnal a chadw, mynd â chŵn am dro, siopa, a chasglu presgripsiynau, ac ati.

Roedd yr ymweliad yn gyfle gwych i glywed am y pethau a helpodd i wneud iddo weithio yn y gymuned leol, a'r pethau allweddol y gallai fod angen i gymunedau eraill eu hystyried os yw'n cyflwyno trefniadau tebyg. Cytunwyd ar drefniadau cyswllt a chyfathrebu rheolaidd rhwng Gofal Solfach a rhanbarth Llais Gorllewin Cymru.

- Cymryd rhan mewn Panel Rhanddeiliaid i hysbysu penodiad Cyfarwyddwr Comisiynu newydd ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol yng Nghymru fel rhan o'r Cydbwyllgor Comisiynu newydd.

Cefais ragor o wybodaeth hefyd fel parti â diddordeb am achosion yr Adolygiad Barnwrol gyda'r nod o herio penderfyniad Cydbwyllgor

Comisiynu GIG Cymru i gymeradwyo argymhellion ar gyfer adleoli Gwasanaethau Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys.

### **Datblygu ein hunain i gyflawni**

Rwyf wedi treulio llawer o amser yn gweithio gydag arweinwyr a staff ein sefydliad i barhau i feithrin ein gallu a'n ffyrdd o weithio. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cefnogi cyflwyniad ein Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol newydd i'n sefydliad, a chwrdd ag aelodau newydd i'n sefydliad i glywed mwy amdanynt, y rhesymau dros ymuno â Llais a'r hyn y gallwn ei wneud i'w cefnogi yn eu gwaith.
- Comisiynu ein tîm arwain 'Tîm Arwain' i siarad am, penderfynu ar, gwneud cynigion, a goruchwylio cynnydd o amgylch y pethau rydym yn eu gwneud a sut rydym yn eu gwneud. Mae hyn wedi canolbwyntio ar ystod o feysydd, gan gynnwys:
  - Datblygiad parhaus ein fframwaith a threfniadau llywodraethu a sicrwydd
  - Datblygu ein cynlluniau a'n blaenoriaethau mewn amgylchedd ariannol heriol
  - Gwneud cynrychioliadau yn effeithiol
  - Rhannu'r hyn sy'n gweithio ar draws ein rhanbarthau
  - deall y ffactorau sy'n effeithio ar bresenoldeb yn y gwaith
  - nodi, blaenoriaethu a chyflawni ein rhaglen dysgu a datblygu
  - opsiynau i ddarparu cynllun prydlesu car aberthu cyflog
  - symudiadau swyddfa posibl
  - ein gweithgaredd ymchwil
  - datblygu protocol ar gyfer ein rhan mewn cynigion newid gwasanaeth
  - datblygu ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion a'n dull o weithio gyda phlant a phobl ifanc
  - ein hymagwedd at ddigwyddiadau cenedlaethol
  - adolygu ein polisi a gweithdrefnau diogelu
  - datblygu ein trefniadau parhad busnes
  - trin data a gwybodaeth, gan gynnwys ymdrin â cheisiadau am wybodaeth.
- Adolygu cynnydd ar ddatblygu ein trefniadau cyflenwyr trydydd parti allweddol, gan gynnwys swyddogaethau cefn swyddfa fel y gweithlu a chyllid.

### **Trefniadau cynllunio ac adrodd**

Cyflwynwyd ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft ar gyfer 2023/2024 i Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru ar 31 Awst 2024, yn unol â'n gofynion deddfwriaethol.

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu adroddiadau newydd ar ffurf dangosfwrdd i'n helpu i adolygu cynnydd yn erbyn ein Cynllun Blynyddol, yn ogystal ag adrodd ar sut yr ydym yn gwneud mewn rhai meysydd allweddol fel ein gweithlu a pherfformiad ariannol.

## Digwyddiadau a gweithgareddau i ddod

Mae rhai o'r gweithgareddau a'r digwyddiadau sydd i ddod y byddaf yn ymwneud â nhw yn ystod yr wythnosau nesaf yn cynnwys:

- Grŵp Cyngori Strategol y Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth
- Fforwm Ymgynghorol y DU y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cynhadledd ymchwil "Tyst i niwed, dal i gyfrif".
- Grŵp cyfeirio rhanddeiliaid Addysg a Gwella Iechyd Cymru